**GORCHYMYN YR A4081 NORTH AVENUE (LLANDRINDOD, POWYS) (TERFYN CYFLYMDER 30 MYA DROS DRO AR GYFER CERBYDAU ESEMPT) 2025**

Mae Gweinidogion Cymru, gan weithredu ar ran Cyngor Sir Powys yn unol â threfniadau a wnaed rhwng Cyngor Sir Powys a Gweinidogion Cymru o dan adran 83(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, wedi gwneud Gorchymyn, drwy arfer eu pwerau o dan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ac adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae angen y Gorchymyn er mwyn cynnal y digwyddiad beicio, "Ras Ffordd Sir Faesyfed", yn Llandrindod, Powys a gerllaw iddi.

Effaith y Gorchymyn yw rhoi caniatâd dros dro i gerbydau modur a ddefnyddir gan swyddogion awdurdodedig y digwyddiad gael eu gyrru ar gyflymder heb fod yn gyflymach na 30 mya ar yr A4081 North Avenue o'r arwyddion 20mya sydd gerllaw Mynwent Llandrindod hyd at yr arwyddion 30mya ar y ffordd fynediad i'r gylchfan â Ffordd Cadwallader ac Ystad Ddiwydiannol Ddole Road. Bydd hyn yn eu galluogi i fod ychydig o flaen y ras er mwyn cyflawni eu dyletswyddau o sicrhau bod y ffordd yn glir a dal traffig, pan fo'n briodol. Bydd yn gweithredu "swigen ddiogelwch" a ddylai sicrhau bod y ras yn cael ei chynnal yn ddiogel i feicwyr a'r cyhoedd.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 27 Ebrill 2025 a bydd yn para am 1 diwrnod ar y mwyaf. Disgwylir mai dim ond rhwng 11:00 o'r gloch a 15:00 o'r gloch y bydd y cyfyngiad yn weithredol.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A4081 NORTH AVENUE (LLANDRINDOD WELLS, POWYS) (TEMPORARY 30 MPH SPEED LIMIT FOR EXEMPTED VEHICLES) ORDER 2025**

The Welsh Ministers, acting on behalf of Powys County Council pursuant to arrangements made between Powys County Council and the Welsh Ministers under section 83(1) of the Government of Wales Act 2006, have made an Order, in exercise of their powers under section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984 and section 83 of the Government of Wales Act 2006, which is necessary to hold the "Radnorshire Road Race" cycling event at and near Llandrindod Wells, Powys.

The effect of the Order is to temporarily allow motor vehicles being used by authorised event officials to be driven at a speed not exceeding 30 mph on the A4081 North Avenue from the 20mph signs adjacent to Llandrindod Wells Cemetery to the 30mph signs on the approach to the roundabout with Cadwallader Way and Ddole Industrial Estate Road. This will enable them to get a short distance ahead of the race to carry out their duties of ensuring the road is clear and holding traffic, where appropriate. It will implement a "safety bubble" that should ensure that the race is delivered safely for riders and the public.

The Order comes into force on 27 April 2025 and has a maximum duration of 1 day. The restriction is only expected to operate from 11:00 hours to 15:00 hours.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government